

**Dyddiad cyhoeddi:** 27 Ionawr 2021

### **Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

*“Mae [adeiladu Gorsaf Bow Street] yn wastraff gwarthus o arian cyhoeddus. Fe wnaeth darfu'n fawr ar yr ardal am bron i 12 mis yn ystod y cyfnod adeiladu. Pwy sy'n mynd i'w ddefnyddio? Mae gwasanaeth bws bob hanner awr yn rhad ac am ddim yn y pentref i bobl hŷn. Mae hyd yn oed y ffyrdd i ymuno â'r A44 y tu allan i'r orsaf yn llawer gwaeth nag yr oedden nhw. Hoffwn wybod hefyd am gyfanswm y costau adeiladu. Rydw i'n siŵr eu bod nhw'n llawer mwy na'r £8m a ddyfynnwyd ac na fyddant nhw'n cael eu cyhoeddi.”*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

- 1. I fynd i'r afael â'ch pryder bod adeiladu Gorsaf Bow Street yn 'wastraff gwarthus o arian cyhoeddus' ac i ateb y cwestiwn 'pwy fydd yn ei ddefnyddio?'**

Mae'r penderfyniad i ariannu ac adeiladu Gorsaf Bow Street yn dyddio'n ôl i amser cyn bodolaeth Trafnidiaeth Cymru (TrC), a sefydlwyd yn 2016. Cafodd yr angen am yr orsaf hon ei nodi cyn belled yn ôl â 2010 ac o ganlyniad, daeth TrC yn asiant cyflawni ar gyfer y gwaith a oedd eisoes yn barod i fynd rhagddo pan wnaeth TrC gymryd perchnogaeth.

Yn eu Hastudiaeth Defnyddio Rheilffyrdd 2010, nododd Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru (TraCC) yr angen i adeiladu gorsaf newydd fel Bow Street ac fe wnaethon nhw argymhell rhagor o waith. O'r gorsafoedd newydd a ystyriwyd yn yr astudiaeth hon, roedd disgwyl i Bow Street gynhyrchu'r galw ychwanegol mwyaf am deithiau trên newydd – 29,000 o deithiau newydd y flwyddyn – a hon oedd â'r Gymhareb Cost a Budd uchaf sef 1.3. Mae'r astudiaeth ar gael yma:

**[http://www.tracc.gov.uk/fileadmin/user\\_upload/TraCC\\_Reports/Rail\\_Utilisation\\_Study\\_Final\\_Report\\_April\\_2010\\_main\\_text.pdf](http://www.tracc.gov.uk/fileadmin/user_upload/TraCC_Reports/Rail_Utilisation_Study_Final_Report_April_2010_main_text.pdf)**

Cwblhawyd ymgynghoriad cymunedol WelTAG ar gyfer y gwaith hefyd yn 2010. WelTAG yw'r enw a roddir ar Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i'w ddefnyddio i ddatblygu a gwerthuso unrhyw ymyriad trafndiaeth arfaethedig. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael yma:

**<http://www.tracc.gov.uk/index.php?id=114&L=0>**

Yn 2011, cafodd achos busnes ar gyfer gorsaf Bow Street ei gynnwys yn arfarniad trafniadaeth WelTAG. Mae Paragraff 4.2.2 yn datgan:

*'Amcangyfrifir y bydd tua 30,800 o deithiau 'newydd' blynyddol (ar lefelau teithwyr cyfwerth â 2009/10) yn cael eu cynhyrchu drwy adeiladu gorsaf newydd yn Bow Street. Disgwylir y bydd tua 37,800 o deithiau'n cael eu gwneud o'r orsaf, ond disgwylir y bydd tua 5900 o deithiau'n cael eu dargyfeirio o Borth a 600 o Aberystwyth. Disgwylir y bydd yn tynnu oddeutu 743,000 o gilometrau cerbyd oddi ar y rhwydwaith ffyrdd...'*

Mae Atodiad D yn cynnwys manylion y fethodoleg rhagweld galw. Cafodd y Gymhareb Cost a Budd hefyd ei diwygio am i fyny i oddeutu 2 yn yr astudiaeth hon, gan ddangos mwy o hyder o ran gwerth am arian. Unwaith eto, mae'r dulliau ar gyfer gwneud yr asesiad hwn wedi'u nodi yn yr atodiadau i'r ddogfen hon.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yma:

[http://www.tracc.gov.uk/uploads/media/Carno\\_Bow\\_St\\_May\\_2011\\_Revision\\_D\\_01.pdf](http://www.tracc.gov.uk/uploads/media/Carno_Bow_St_May_2011_Revision_D_01.pdf)

Cafodd y gwaith o adeiladu Gorsaf Bow Street ei nodi fel cam gweithredu (gweler t34 a t52) yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015-2020, a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys a Chyngor Gwynedd ac a gyhoeddwyd ar 30 Ionawr 2015. Ar dudalen 52 mae'n cadarnhau *'Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar yr achos busnes dros gynnig gorsaf newydd.'*

Mae'r adroddiad llawn ar gael yma:

[http://www.tracc.gov.uk/fileadmin/user\\_upload/LTP-FINAL-2015/Final\\_Joint\\_LTP\\_for\\_Mid\\_Wales\\_30-01-15.pdf](http://www.tracc.gov.uk/fileadmin/user_upload/LTP-FINAL-2015/Final_Joint_LTP_for_Mid_Wales_30-01-15.pdf)

Mae gorsaf Bow Street yn cael ei hariannu'n rhannol gan Adran Drafniadaeth y DU drwy'r Gronfa Gorsafoedd Newydd ac felly mae'r Adran Drafniadaeth yn credu ei fod yn cynnig gwerth am arian. Fe wnaeth datganiad diweddarach ym mis Chwefror 2020 gadarnhau cefnogaeth yr Adran Drafniadaeth i'r buddsoddiad hwn:

<https://www.gov.uk/government/news/20m-could-provide-welsh-communities-with-new-railway-station>

Mae'r Adroddiad Dewis Opsiynau, a gyflwynwyd fel rhan o'r cais cynllunio, yn nodi:

*"Bydd y cynllun arfaethedig yn galluogi rhyng-gipio teithiau mewn ceir preifat (yn enwedig rhai sydd â dim ond un person) o'r Gogledd (A487) a'r Dwyrain (A44/A4159) drwy ddarparu manau parcio arhosiad hirach 'y tu allan i'r dref' y mae mawr eu hangen er mwyn gallu cyfnewid yn hawdd rhwng y car...ac un ai gwasanaethau trên neu fysiau lleol/pellach. Bydd hyn yn creu cyfleoedd newydd a mwy ar gyfer newid moddol cadarnhaol o blaid trafniadaeth i deithwyr, gyda mwy o gyfleoedd i wneud rhan o'r daith drwy gyfrwng Teithio Llesol (cerdded a beicio)."*

Mae'r cais llawn ar gael yma:

[Ceredigion | Council Direct \(tascomi.com\)](http://www.tascomi.com)

## 2. A yw'r gwaith adeiladu'n gyfrifol am effeithio ar y ffyrdd ymuno â'r A44 y tu allan i'r orsaf?

Mae adeiladu Gorsaf Bow Street wedi effeithio ar y ffyrdd ymuno hyn. Er bod pob ymdrech wedi cael ei gwneud i gwblhau'r gwaith mor gyflym a diogel â phosibl, ac i leihau'r effaith ar drigolion lleol a defnyddwyr y llwybr; mae cyfyngiadau sylweddol wedi bod yn ystod 2020 a 2021 o ganlyniad i COVID-19.

Yn ogystal ag adeiladu'r orsaf ei hun, mae'r prosiect hefyd wedi cwblhau'r gwaith o ail-alinio'r briffordd rhwng yr A487 a'r A4159 yn unol â'r cais cynllunio a gymeradwywyd (yn dilyn y broses ymgynghori) i wella diogelwch y briffordd ac i integreiddio'r Llwybr Teithio Llesol yn llawn ar gyfer defnyddwyr y dyfodol (hy cerdded/beicio).

## 3. Beth yw cyfanswm y costau adeiladu hyd yma?

Mae cyfanswm y costau adeiladu hyd yma wedi'u hamlinellu yn y tabl isod:

Eitem	Gwariant
1. Dylunio a Sicrwydd	£1,201,805
2. Adeiladu	£6,948,465
3. Ymgysylltu, lawndal a Hyfforddi	£190,013
4. Rheoli'r Prosiect	£852,300
<b>Cyfanswm (heb gynnwys TAW)</b>	<b>£9,192,583</b>

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

### Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu [freedomofinformation@tfw.wales](mailto:freedomofinformation@tfw.wales). Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fodd "Gwvodaeth Swvddogol neu Gvhoeddus".